Ysgol Gymunedol Peniel
Peniel
Caerfyrddin
SA32 7AB

Rhif Ffon: 01267 234296
Ebost: admin@peniel.ysgolccc.cymru

Peniel Community School
Peniel
Carmarthen
SA32 7AB

Tel No: 01267 234296
Email: admin@peniel.ysgolccc.cymru

Pennaeth/Headteacher
Miss E H Powell

13/02/26

Carwn ddymuno hanner tymor hapus i chi. Mwynhewch y gwyliau, mae hanner tymor prysur byr yn ein gwynebu ym mis Mawrth.

I would like to wish you a good half term. Enjoy the holiday, we have a very busy short half term in March.

PRYDLONDEB / PUNCTUALITY

Cyrraedd yr ysgol ar amser – Mae'n ofynnol arnom i gadw cofnod o blant sydd yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn gyson. Gwnewch bob ymdrech i sicrhau fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol erbyn 9 o'r gloch ac yn cael ei gasglu / chasglu yn brydlon ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Bydd disgwyl i rieni arwyddo cofrestr hwyr os bydd plentyn yn hwyr yn cyrraedd gan nodi rheswm dilys.

Arriving at school on time - as a school we must keep a note of pupils who are continually arriving late. Please make every effort to ensure that your child arrives at school before 9 o'clock and is collected promptly at the end of the school day. We'll expect parents to sign a late register if a child arrives later at school stating a valid reason.

ABSENOLDEB / ABSENT

Absenoldeb – os fydd eich plentyn yn absennol RHAID :

1. Cysylltu â'r ysgol i ddweud na fydd eich plentyn yn yr ysgol (galwad ffôn neu e-bost cyn 9.10)

Absent from school – if your child is absent from school, you MUST:

1. Inform the school that your child will be absent (telephone or e-mail before 9:10)

GWISG YSGOL / SCHOOL UNIFORM

Apeliwn arnoch i wneud yn siŵr fod ENW EICH PLENTYN ar bob dilledyn o'i eiddo er mwyn hwylustod pan fo pethau yn mynd ar goll.

Hoffwn eich atgoffa o'n gwisg ysgol:

Trowser du neu lwyd neu sgert ddu neu lwyd i ferched os dymunant. **Nid yw gwisgo jîns na leggings yn dderbyniol nac ychwaith 'skins' o dan siorts.** Ni chaniateir ategolion megis gemweithiau, 'chokers'. Os yn gwisgo bandiau pen – gofynnwn yn garedig iddynt fod yn rhai defnydd sy'n gorwedd ar y pen. Mae hyn oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. **Nid yw 'hoodies' yn rhan o wisg ysgol.**

Please make sure that your CHILD'S NAME is written clearly on each item of clothing for convenience when items are misplaced or lost.

A little reminder about school uniform.

Black or grey trousers or a grey or black skirt for girls if they wished**. Jeans or leggings are not acceptable neither are skins under shorts**. Accessories such as chokers, jewellery are not permitted. If wearing a headband / hairband, please ensure that they are made of fabric and sit flat on the head. These rules are in place for health and safety reasons. **Hoodies are not a part of the school uniform.**

GWERSI ADDYSG GORFFOROL / PHYSICAL EDUCATION LESSONS

COFIWCH FOD ANGEN I'CH PLENTYN / PLANT DDOD I'R YSGOL MEWN DILLAD ADDAS AR GYFER Y SESIYNAU - crysau-t plaen a siorts neu leggings / trowsus chwaraeon.

DIM CIT PEL DROED / RYGBI!

DIM TUNICS / FFROGIAU / DUNGAREES / CROP TOPS / SIACEDI DENIM / UGGS

THE CHILDREN ARE REQUIRED TO COME TO SCHOOL IN APPROPRIATE CLOTHING FOR THESE SESSIONS - **plain t-shirt** and shorts or leggings / joggers.

NO FOOTBALL OR RUGBY KITS!

NO TUNICS / DRESSES / DUNGAREES / CROP TOPS / DENIM JACKETS / UGGS

MODDION YN YR YSGOL / MEDICINE

Mae aelodau staff wedi cytuno'n wirfoddol i **weinyddu moddion sydd ar bresgripsiwn meddyg**. Mae'n rhaid i chi rieni/gofalwyr ddod â'r moddion presgripsiwn i'r ysgol a'i drosglwyddo yn ddiogel a chwblhau ffurflen "Caniatâd Gweinyddu Moddion". Ni allwn weinyddu unrhyw feddyginiaeth heb y ffurflen. **Mae copi o'r ffurflen ar gael ar wefan yr ysgol**.

Staff have voluntarily agreed to administer medicines prescribed by a doctor. Parents/Guardians must bring the prescribed medicine to the school and transfer it safely and complete a "Medication Administration Permission" form. We cannot administer any medication without the form. **A copy of the form is available on the school website.**

ARIAN / MONEY

Carwn eich atgoffa os oes gennych unrhyw arian i ddod i'r ysgol i'w roi **mewn amlenni**. Bydd angen amlen ar gyfer pob taliad ar wahân. Cofiwch ysgrifennu enw eich plentyn, pwrpas y taliad a'r cyfanswm ar flaen yr amlen. Diolch am eich cydweithrediad.

I would like to remind you, if you have any money to bring into school to place the money **in an envelope**. You will need a separate envelope for each payment. Would you be as kind as to write your child's name, purpose of payment and the total clearly on the envelope. Thank you for your co-operation.

OUR SCHOOL APP

Cofiwch lawr lwytho AP yr ysgol i'ch ffôn symudol/tabled - er mwyn cael yr holl ddyddiadau, digwyddiadau a newyddion diweddaraf. Unrhyw broblemau cysylltwch â'r ysgol.

Could you please download the school APP to your mobile phone/tablet - where all the latest dates, events and news are published. Any problems, please contact the school.

BAG YSGOL / SCHOOL BAG

Gofynnwn i chi sicrhau nad yw eich plentyn/plant yn dod ag ategolion gyda nhw i'r ysgol e.e. Gemwaith, colur, *lipgloss*, teganau, llyfrau dwdlo, batiau tennis neu unrhyw chwaraeon arall, cardiau cyfnewid (match attacks, topps) ayyb.

We kindly ask you to ensure that your child/children do not bring accessories and gadgets with them to school i.e. jewellery, make-up, lip gloss, toys, doodling books, tennis rackets or any other sporting rackets/bats, cards to exchange (match attacks, topps cards) etc.

CLYBIAU ALLGYRSIOL / EXTRA CURRICULAR CLUBS

Tro i flwyddyn 3 gael clybiau allgyrsiol yw hi y tymor yma.
This half term will be year 3's opportunity to enjoy extra-curricular activities.

Byddwn yn cynnig:

- Sesiwn Chwaraeon
- Sesiwn Coginio
- Sesiwn Didigol
- Sesiwn Celf

We'll be offering:

Sports Session
Cooking Session
Digital Session
Art Session

Dyddiadau / Dates: 24/02/26 03/03/26 10/03/26 24/03/26

LLWYDDO GYDA'N GILYDD SUCCEEDING TOGETHER

	Dydd Llun / Monday	Dydd Mawrth / Tuesday	Dydd Mercher / Wednesday	Dydd Iau / Thursday	Dydd Gwener / Friday
	23	24	25	26	27
W 1		Clwb Blwyddyn 3 Year 3 Club			EISTEDDFOD YSGOL SCHOOL EISTEDDFOD
	2	3	4	5	6
W 2	**RHAGBROFION YR URDD** Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi St. David's Day Celebrations 	TRIP HENLLAN i Amgueddfa Abergwili HENLLAN Trip to Abergwili museum Clwb Blwyddyn 3 Year 3 Club	**EISTEDDFOD CYLCH**	Diwrnod y Llyfr World Book Day 	
	9	10	11	12	13
W 3	Eisteddfod Dawns BRO MYRDDIN Dance Eisteddfod	Clwb Blwyddyn 3 Year 3 Club			
	16	17	18	19	20
W 4	NOSON AGORED I RIENI PARENTS OPEN EVENING	NOSON AGORED I RIENI PARENTS OPEN EVENING		 NOSON AGORED I RIENI HENLLAN HENLLAN PARENTS OPEN EVENING	Diwrnod Trwynau Coch Red Nose Day
	23	24	25	26	27
W 5		Clwb Blwyddyn 3 Year 3 Club	BINGO GRhFf PFA BINGO		

W - Wythnos / Week

HMS -	13/04/26	20/07/26
INSET -	13/04/26	20/07/26

Gall digwyddiadau / dyddiadau newid
Dates / events can change

GWYLIAU PASG – Bydd yr ysgol yn cau am 3:30yp ddydd Gwener Mawrth 27ain ac yn ail agor Ddydd Mawrth, Ebrill 14eg.

HALF TERM HOLIDAYS – The school will close at 3:30pm on Friday March 27th and will re-open on Tuesday, April 14th.

Diolch / Thank you,

Miss E H Powell